

Dosbarth Ogwen



Gair bach i groesawu chi i Ddosbarth Ogwen. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r gwyliau ac yn edrych ymlaen at y flwyddyn addysgol newydd. Dyma ychydig o wybodaeth am drefn ein dosbarth ni.

Thema- Gourmet Byd Eang

Ein thema ni am yr hanner tymor nesaf yw Gourmet Byd Eang. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynllunio a thechnoleg bwyd ac yn dysgu plant am wahanol fathau o fwydydd o gwmpas y byd, masnach deg a phwysigrwydd bwyta diet iachus er mwyn eu lles. Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu:

- O ble y daw'r bwydydd, a sut mae gan fwydydd 'ôl troed carbon' sy'n effeithio ar y gost ;
- Am draddodiadau diwylliannol sy'n perthyn i fwyd; sut mae cynhyrchu bwyd yn bwysig i rai gwledydd arbennig;
- Sut mae diet yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles;
- Gwneud mesuriadau cywir manwl a chyfrifo costau bwydydd a chynhwysion;
- Datblygu sgiliau technoleg bwyd sylfaenol a dilyn ryseitiau;

Mae yna groeso i'r plant ddod ag unrhyw lyfrau gwybodaeth/coginio am fwyd o wahanol wledydd i'r ysgol ac os oes ganddo'ch unrhyw arbenigedd yn y testun hwn, yna bydden ni'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth.

Gwaith Cartref a Darllen

Fel rheol, bydd gwaith cartref yn cael ei gyflwyno ar Ddydd Iau ac i'w gwblhau erbyn y Dydd Mercher canlynol. Ar adegau, bydd gan y plant prosiectau estynedig i wneud ac felly bydd mwy amser yn cael ei roi ar gyfer rhain. Mae croeso i chi gysylltu gyda fi unrhyw amser os oes gennych chi neu eich plentyn unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwaith.

Yn ogystal â gwaith cartref, mae'n hynod o bwysig bod eich plentyn yn darllen yn rheolaidd. Bydd y plant yn mynd a llyfrau darllen adref yn wythnosol ac felly gofynnwn yn garedig i chi eu cefnogi a'u hannog i ddarllen gan arwyddo' cofnod darllen i gadarnhau eu bod wedi darllen adref.

Addysg Gorfforol

Bydd Dosbarth Ogwen yn cael gwersi Addysg Gorfforol ar Ddydd Mawrth a Dydd Gwener ac felly mae'n bwysig bod gan eich plentyn ddillad Addysg Gorfforol addas yn yr ysgol ar y diwrnodau hyn.

Gwersi Offeyrnau

Eleni, bydd Mrs Jane Parry yn dod i'r ysgol i gynnal gwersi chwythbrennau ar brynhawn Dydd Llun. Bydd gwersi gitâr yn cael eu cynnal ar brynhawn Dydd Gwener.

Class Dojo.

Mae'r dosbarthiadau newydd bellach wedi eu sefydlu ar Class Dojo a bydd yr athrawon yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i gysylltu gyda rhieni. Mae'n bwysig eich bod yn cofrestru i'w ddefnyddio, os nad ydych wedi yn barod. Mae'n ddull diogel ac effeithiol o gadw cysylltiad rhwng athrawon a rhieni, rhannu llwyddiannau eich plant ac arddangos eu gwaith gwydch.

Edrychaf ymlaen at y flwyddyn newydd sydd o'm blaenau. Cofiwch fod croeso i chi gysylltu unrhyw amser os oes ganddo'ch unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Diolch

Miss Eleri Davies